COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR (B) DEDDF DRWYDDEDU 2003 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MERCHER, 8 EBRILL 2026 AM 10 O'R GLOCH

Presennol:

Cynghorwyr

RM James S Easterbrook

Presennol yn Rhithwir

HT Bennett

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| MA Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| S Pitchford | Swyddog Cyfreithiol |
| Y Witchell | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| M Pitman | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Technegol |

Gwahoddedigion

S Yavuz (yn cael ei gynrychioli gan S Uddin, Cyfreithiwr)
G Farnham, Swyddog Gorfodi Mewnfudo, Y Swyddfa Gartref

**Penodi Cadeirydd**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd R Williams, cynigiwyd bod y Cynghorydd Bennett yn cadeirio'r cyfarfod ac eiliwyd hynny.

**96. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorydd R Williams. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Ebrill 2026. |

**This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg**

## 97. Datganiadau o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Ebrill 2026 |

## 98. Adolygu Trwydded Safle ar gyfer USA Chicken, Pizza & Kebabs, 25 Stryd Talbot, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, CF34 9DW

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd yr Uwch Swyddog – Trwyddedu adroddiad fel y gallai'r aelodau benderfynu ar gais i adolygu trwydded safle yn gysylltiedig â'r safle uchod. Cyflwynwyd y cais gan y Swyddfa Gartref.<br><br>Yn dilyn amlinellu'r cais er budd yr aelodau, gwnaeth Cwnsler deiliad y drwydded gais i ohirio'r gwrandawiad ar y sail canlynol.<br><br>a. Siaradwyr Twrceg brodorol oedd deiliad y drwydded a rheolwr y safle. Felly, roedd arnynt angen cyfieithydd i gymryd rhan yn y trafodaethau mewn modd priodol a theg. Roedd y cais am adolygiad yn gais difrifol, gan y gallai arwain at ddirymu trwydded y safle. Byddai symud ymlaen heb gyfieithydd yn rhagfarnu yn erbyn deiliad y drwydded a byddai'n achos cywilydd proffesiynol i gwnsler a chyfreithiwr deiliad y drwydded.<br><br>b. Awgrymodd cwnsler deiliad y drwydded na fyddai gohirio'r gwrandawiad yn rhagfarnu yn erbyn y Swyddfa Gartref oherwydd bod y camymddwyn y cwynwyd yn ei gylch, sef cyflogi anghyfreithlon, yn rhywbeth hanesyddol ynghyd â'r ffaith fod y mater wedi bod yn mynd ymlaen ers peth amser.<br><br>c. O ganlyniad i gamgyfathrebu, nid oedd rheolwr y safle yn bresennol. Ystyrid bod ei bresenoldeb yn hanfodol i ddeiliad y drwydded fedru ymateb i'r cais am adolygiad.<br><br>Dywedodd y Cwnsler y gallai'r cyfreithwyr, oedd yn ei gyfarwyddo, drefnu cyfieithydd |

| | |
|---|---|
| | Twrcaidd o fewn 14 diwrnod. Felly, ni ddylai unrhyw ohiriad fod yn hwy na hynny o amser.<br><br>Pan ofynnwyd iddo, gwrthwynebodd cynrychiolydd y Swyddfa Gartref y cais i ohirio ar sail y ffaith fod y mater hwn wedi cael ei ohirio eisoes fis ynghynt. Fodd bynnag, nid oedd yn gwrthwynebu sylwedd cyflwyniadau'r Cwnsler.<br><br>Felly, cytunodd yr is-bwyllgor i ymneilltuo er mwyn trafod gyda swyddog cyfreithiol y Cyngor. Cytunodd yr is-bwyllgor ymhellach na allai deiliad y drwydded ddeall y trafodaethau na chymryd rhan yn iawn yn y cyfarfod heb gyfieithydd, ac y byddai symud ymlaen heb gyfieithydd yn bresennol yn rhagfarnu'n annheg yn ei erbyn.<br><br>Yn ei chais ysgrifenedig, roedd y Swyddfa Gartref wedi gofyn i'r is-bwyllgor ystyried dirymu'r drwydded o ddifrif. Felly, roedd yn gais gyda chanlyniadau difrifol posibl i ddeiliad y drwydded a rheolwr y safle. Roedd cyfiawnder naturiol yn ei gwneud yn ofynnol iddo allu deall ac ymateb i'r cais yn ei erbyn.<br><br>Byr oedd y cyfnod gohirio y gofynnwyd amdano a hanesyddol oedd yr honiadau, heb unrhyw honiadau o weithgarwch anghyfreithlon yn parhau ar y safle. Felly, ychydig iawn o ragfarn oedd yn erbyn y Swyddfa Gartref o ohirio'r cyfarfod am gyfnod cymharol fyr, a dim perygl i'r cyhoedd.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Bod yr is-bwyllgor yn cytuno i ohirio'r gwrandawiad am 14 diwrnod ac y câi'r cyfarfod a ailgynullid ei gynnal o bell. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Ebrill 2026 |

Er mwyn gweld dadl bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch, os gwelwch yn dda, ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 12:19.

**This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg**